

Gweithgareddau Ysgrifennu

Cyfarwyddiadau




Yma ceir nifer o weithgareddau sy'n rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau ysgrifennu eich disgyblion gan ganolbwyntio'n benodol ar roi profiadau iddynt i fod yn greadigol.
Mae yma nifer o ffurfiau a gweithgareddau gwahanol i'w dewis a'u dethol yn ôl anghenion eich disgyblion.

CYMRAEG yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Ysgrifennu

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio



Ysgrifennu

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwmpas
2. cysylltu brawddegau a chymalau yn ddealladwy ac yn drefnus; defnyddio cystrawennau amrywiol Cymraeg a pharagraffu'n effeithiol
3. defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol gan gynnwys:
 - atalnod
 - atalnod llawn
 - gofynnod
 - dyfynnod
 - ebychnod
 - collnod
 - acen grom
 - pwyntiau bwled
4. dewis a defnyddio geirfa briodol, datblygu iaith goeth, rywiog a'i defnyddio i greu effeithiau
5. meithrin cywirdeb trwy:
 - ddefnyddio ffurfiau berfol
 - negyddu brawddegau
 - defnyddio arddodiaid
6. defnyddio ystod o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gywir; gwirio sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh
7. defnyddio geirfa a therminoleg briodol wrth ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill
8. drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen i:
 - baratoi a chynllunio
 - drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith
 - prawf-ddarllen
 - paratoi copi terfynol
9. cyflwyno'u gwaith yn briodol gan:
 - ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy, yn unol â chonfensiwn
 - defnyddio dulliau cyflwyno a gosod pwrpasol, gan gynnwys TGCh.

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

1. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
 - difyrru
 - cyflwyno gwybodaeth
 - mynegi barn
 - cyfleu teimladau a syniadau
2. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygus, e.e. yr hunan, cyd-ddisgyblion, disgyblion iau, athrawon, teulu a ffrindiau
3. ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. stori, cerdd, sgript, taflen, poster, hysbyseb, adroddiad, dyddiadur, nodiadau, testun electronig, portread, cyfarwyddiadau, holiadur, adolygiad, erthygl, araith
4. ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. stori, cerdd, eu diddordebau, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt, rhaglen deledu, cerflun.

Enghreifftiau o
ddefnyddio testun
cyfarwyddiadau

rysáit

arbrawf
gwyddonol

Posterï -
arwyddion /
rheolau

patrwm gweu
neu wnïo

llawlyfr technegol e.e.
ar gyfer cyfrifiadur
neu beiriannau

llyfr 'DIY'

gweithgareddau
celf a chrefft



Prif Nodweddion Testun Cyfarwyddiadau

Prif bwrpas testun
cyfarwyddiadau yw i
ddweud sut mae gwneud
rhywbeth.



- teitl sydd yn cyfleu'r gweithgaredd
- rhestr beth sydd ei angen
- y gweithgaredd, cam wrth gam
- iaith syml ac eglur
- berfau gorchmynnol e.e. Rhowch; Torrwch; Peidiwch; neu Rho; Torra; Paid;
- yr ail berson
- rhifau a/neu cysyllteiriau amser e.e wedyn, ar ôl, yna
- gwybodaeth angenrheidiol yn unig
- lluniau / diagramau i gefnogi'r testun
- brawddeg i gloi

Enghraifft o Destun Cyfarwyddiadau

Deunydd darllen Cip — Tachwedd 2006

Rhestr beth
sydd ei angen

Y gweithgaredd -
cam wrth gam



Arfbrawf Afalau

Mae hi yn dymor yr Hydref a'r cynhaeaf ar ei orau. Mae'r coed yn y perllannau yn llawn afalau melys sy'n barod i'w bwyta a'u ceginio. Ar Noson Tân Gwylt does dim byd gwell na gwyllo'r rocedi yn saethu i'r awyr wrth fwyta afalau taffi, melys. Ond, wyt ti wedi meddwl arbrofi gydag afalau? Dyma ychydig o wyddoniaeth i wneud i ti feddwl!

Rwyt ti angen:

- * Afal melys, blasus
- * Pâr o glustffonau - paid â phoeni, wnei di ddim eu torri nhw
- * Darn dwy geiniog sgleiniog
- * Naddwr pensiliau metel
- * Cyllell (cofia fod yn ofalus a gofyn am help oedolyn)



Beth i'w wneud nesaf:

1. Torra yr afal yn ddau hanner. Rho un hanner ar blât, a bwyta'r hanner arall!
2. Yn ofalus, torra ddwy hollt yn yr afal yn gyfochrog â'i gilydd. Dylai'r ddwy hollt fod yn ddau gentimedr o led, yn ddau gentimedr o ddyfnder, a thua hanner centimedr ar wahân.



Plant Ysgol Gynradd Balsall Common a Dr Peter Barnes o Brifysgol Warwick yn mwynhau gwneud arbrofion o bob math gydag afalau.



3. Rho'r ddwy geiniog mewn un hollt. Rho'r naddwr, pen teneuaf yn gyntaf, i mewn yn y twll arall. Ni ddylai'r ddau fod yn cyffwrdd ei gilydd. Dyma electrodau'r batri.



4. Nawr, rho'r clustffonau ar dy glustiau, a rho'r pen arall i'r clustffonau i led gyffwrdd â'r electrodau. Fedri di glywed y clecian? Mae trydan yn cael ei gynhyrchu yn yr afal!



Teitl sydd yn
cyfleu'r
gweithgaredd

Lluniau i gefnogi'r
testun

Rhifau i nodi'r
camau

Brawddeg i gloi

Enghraifft o Destun Cyfarwyddiadau

Rysait o lyfr DEL A DEI YN Y GEGIN

Rhestr beth
sydd ei angen

Y gweithgaredd -
cam wrth gam


Nythod Pasg

CYNHWYSION

100g (4 owns) o siocled
2 ddarn o Shredded Wheat
100g (4 owns) o felysion lliwgar

OFFER

Basn bach
Sosban
Llwy bren
Casys bach papur



- 1 Toddwch y siocled mewn basn bach dros sosbanaid o ddŵr berwedig.
- 2 Torrwch y Shredded Wheat yn ddarnau, ychwanegwch y siocled a'i gymysgu'n dda.
- 3 Rhowch y cymysgedd yn y casys papur gan wasgu'r canol i wneud siâp nyth.
- 4 Gadewch iddynt setio mewn lle oer.
- 5 Llenwch y nythod â melysion neu wyau siwgr. (Gellwch wneud wyau o bast almon a'u lliwio drwy eu rhoi mewn coffi; gweler y llun.)



Teitl sydd yn cyfleu'r
gweithgaredd

Lluniau i gefnogi'r
testun

Y gweithgaredd -
cam wrth gam

Rhifau i nodi'r camau

Teitl sydd yn cyfleu'r gweithgaredd

Rho gynnig ar ...

Cerdyn cyfarch blodeuog



Wyt ti angen cerdyn i ddweud pen-blwydd hapus, diolch, neu jest helô? Y mis yma mae Lois Prys yn dangos sut mae gwneud cerdyn blodeuog hyfryd ar gyfer yn haf.

Deunyddiau

- cerdyn ysgafn maint A4
- papur sidan o wahanol liwiau
- siswrn
- botymau
- glud



Cam 1: Plyga'r cerdyn A4 yn ei hanner; dyma gefndir dy gerdyn.



Cam 2: Torra betalau o wahanol siapiau a maint allan o'r papurau sidan. Cofia y gelli blygu'r papur sidan a thorri mwy nag un petal ar y tro.



Cam 3: Trefna'r petalau mewn siâp blodau. Gelli roi un, dau, tri neu fwy o flodau ar dy gerdyn, yna gluda'r petalau i'w lle.



Cam 4: Ar ôl i'r blodau sychu'n iawn, gluda fotwm i ganol bob un.



Cam 5: I wneud y cerdyn ychydig yn fwy diddorol, torra yn ofalus o amgylch y blodyn top er mwyn cael siâp ychydig yn wahanol i dy gerdyn.



Wedi gorffen! Gall hwn fod yn gerdyn pen-blwydd, diolch, gwahoddiad, neu ddim ond cerdyn i ddweud helô!

Rhestr beth sydd ei angen

Y gweithgaredd - cam wrth gam

Rhifau i nodi'r camau


Lluniau i gefnogi'r testun

Brawddeg i gloi

Calendr Adfent

Gwnewch eich calendr Adfent eich hun er mwyn cyfrif y dyddiau tan y Nadolig.

Fe fydd angen darn o gerdyn rhychiog (560mm x 350mm). Torrwch y cerdyn yn driongl tal, neu'n siâp coeden fwy ffansi os mynnwch chi. Paentiwch eich coeden â phaent poster gwydd. Yna, pan fydd wedi sychu, rhowch gylch hongian llenni drwy'r pen.



Torrwch 24 o siapiau allan o gerdyn lliwgar: sêr, calonnau, cylchoedd, ffyn india roc, clychau, sanau (unrhyw beth sy'n awgrymu'r Nadolig). Paentiwch y siapiau a'u haddurno â sgleiniau, gliter neu dinsel. Yna gosodwch un o'r siapiau ar y goeden bob dydd â phin a phen gwydr iddo. Erbyn dydd Nadolig fe fydd gennych chi goeden hardd iawn.

Dyma enghraifft o destun sy'n rhoi cyfarwyddiadau ar sut mae gwneud Calendr Adfent.

Beth yw eich barn ar osodiad y testun?

Ydy'r cyfarwyddiadau'n ddigon eglur?

Ydy'r iaith yn ddigon syml?

A oes rhestr glir o beth sydd ei angen?

Ydy'r lluniau yn ychwanegu rhywbeth at y testun?

Ewch ati i ail gyflwyno'r wybodaeth gan ystyried y nodweddion sydd yn bwysig.

Fferins Celyn

Bydd angen:


paced o eisin 'barod-i'w-rolio'
rhinflas mintys poeth (*peppermint*)
lliw coginio gwyrdd

Gwisgwch ffedog a golchwch eich dwylo'n lân.

Tylinwch yr eisin yn eich dwylo nes ei fod yn feddal ac yn hawdd i'w drafod. Gwnewch belen ohono ac yna ei wasgu i lawr i siâp plât cinio. Sgeintiwch ½ llond llwy de o'r rhinflas mintys poeth ac ychydig o ddiferion o'r lliw gwyrdd drosto.



Plygwch ochrau'r cylch eisin tuag at y canol. Yna gwasgwch ef yn belen â'ch dwylo, gan ddal ati nes ei fod yn wyrdd i gyd.



Rholiwch y belen yn ddarn fflat tua 8mm o drwch a thorri'r siapiau celyn allan ohono â thorrell fetel neu gerdyn wedi ei dorri i siâp deilen gelyn. Rhewch y fferins ar blât a'u gosod yn yr oergell am ddeng munud o leiaf i galedu.



Dyma enghraifft o destun sy'n rhoi cyfarwyddiadau ar sut mae gwneud Fferins Celyn.

Beth yw eich barn ar osodiad y testun?

Ydy'r cyfarwyddiadau'n ddigon eglur?

Ydy'r iaith yn ddigon syml?

A oes rhestr glir o beth sydd ei angen?

Ydy'r lluniau yn ychwanegu rhywbeth at y testun?

Ewch ati i ail gyflwyno'r wybodaeth gan ystyried y nodweddion sydd yn bwysig.

Dyma rysait syml.
Chwiliwch am y nodweddion.



Crwst Cnau Almon

Cynhwysion

300g blawd
180g menyyn
3 llwy fwrdd siwgr
25g cnau almon mâl
1 melynwy
3 llwy fwrdd hufen



1. Rhowch y blawd a'r cnau almon mâl mewn powlen a'u cymysgu.
2. Rhwbiwch y menyyn i mewn i'r cynhwysion sych.
3. Ychwanegwch y siwgr.
4. Cymysgwch y melynwy a'r hufen ac ychwanegwch i'r bowlen.
5. Tylinwch y toes nes ei fod yn llyfn.
6. Defnyddiwch y crwst i wneud mins peis.



Teitl (Beth sydd i'w wneud?):
Teitl addas arall?

Beth sydd ei angen?

Dim ond y cynhwysion sydd yma.
Oes modd rhestru'r cyfarpar
hefyd?

Beth sydd i'w wneud?

Cofnodwch y berfau gorchmynnol.

-
-
-
-
-
-

Ychwanegwch ragor o ferfau gorchmynnol
addas ar gyfer coginio: -

Beth am frawddeg i gloi?

Mae'r lluniau isod yn dangos
gweithgaredd o wneud ffrâm llun.
Ysgrifennwch y cyfarwyddiadau i
gydfynd â phob llun.

Rho gynnig ar ...

Rhifyn Cip — Ebrill 2007


Ffrâm llun gan Lois Prys



Deunyddiau

- Hen bapurau lapio/ wyau Pasg / losin
- Glud pva
- Pren mesur
- Siswm neu gyllell grefft
- Piniau ffelt
- 3 darn o gardfwrdd (hen focs yn iawn) 15cm x 23cm





Taflen Gynllunio


Casglu Syniadau



Teitl (Beth sydd i'w wneud?):

Beth sydd ei angen?

Beth sydd i'w wneud? (cam wrth gam)
Cofiwch y berfau gorchmynnol!



Ysgrifennu Cyfarwyddiadau

Ydy'r gwaith yn cynnwys teitl sydd yn cyfleu'r gweithgaredd?	
Ydy'r gwaith yn cynnwys rhestr o bethau sydd ei hangen?	
Ydych chi wedi defnyddio iaith syml?	
Ydych chi wedi defnyddio ffurf gorchmynnol y ferf?	
Ydy camau'r gweithgaredd mewn trefn gronolegol?	
Ydych chi wedi defnyddio rhifau neu gysyllteiriau amser i hwyluso'r darlleniad o'r testun?	
Ydy'r gwaith wedi'i gyflwyno'n dachus?	

Pe bawn i'n cael y cyfle eto, buaswn i yn :